CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd, nos Lun 4 Chwefror 2018**

Presennol: Cyng Iwan Davies, Cadeirydd. Cyngr: Mrs Eleri Davies, Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Mrs Nicky Redmond, Mrs Laura Holder

Clerc

CS C Davies

Aelodau'r Cyhoedd: 1

Siaradodd Mrs M Symmons a'r cyfarfod am gais yn ddiweddar am gysgodfan bws wrth ymyl yr A484 yng Nghroes-y-llan. Fel perchennog y tir nid oedd yn cefnogi'r syniad o gael cysgodfan bws. Teimlai fod terfyn cyflymdra lawer yn bwysicach ac y byddai cysgodfan bws yn peryglu gwelededd wrth y gyffordd. Roedd CSC yn cefnogi'r pryder am welededd. Dywedodd fod mainc wedi ei gosod ar y safle ryw 10 mlynedd yn ôl a hynny wedi achosi gollwng sbwriel hyll oedd yn gorfod cael ei glirio bob dydd. Roedd y fainc wedi ei thynnu oddi yno oherwydd iddi bydru. Diolchwyd i Mrs Symmons am fod yn bresennol, yna gadawodd y cyfarfod.

*Datgelodd y Cyng K Symmons fuddiant yn y mater uchod ac nid oedd yn bresennol yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio mewn cysylltiad â'r mater.*

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd y Cyng H Davies wedi anfon ymddiheuriadau.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cyng K Symmons fuddiant ym mater y gysgodfan bws yng Nghroes-y-llan ac unrhyw faterion yn ymwneud â thrwsio â tho adeilad y Mileniwm.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd y CS Clive Davies iddo fod mewn nifer o gyfarfodydd cyllideb gan y Cyngor Sir. Dywedodd ei bod yn ymddangos y byddai toriadau mawr yn y flwyddyn ariannol 18 / 19, ond gallai fod hefyd yn y flwyddyn ddilynol. Un ffordd o arbed drwy effeithlonrwydd oedd cyflwyno CLIC Ceredigion, a fyddai'n trawsnewid gwasanaeth cwsmeriaid ym mhob maes gwasanaeth ar draws y Cyngor Sir. Dywedodd y byddai Clercod yn cael hyfforddiant ar fynd i mewn i'r system a'i defnyddio. Argymhellodd i'r Cynghorwyr geisio mynd i'r cyfarfod am Gynlluniau Lle ar 20 Chwefror am 7pm yn Aberteifi, lle byddid yn dechrau crynhoi rhestr o ddymuniadau cynllunio i'r ardal. Soniodd am y problemau diweddar gyda llifogydd yn gysylltiedig â thraeniau wedi'u rhwystro, ac roedd wedi hyrwyddo'r syniad o bennu cyllidebau lleol cynnal a chadw i ddelio â'r math hwn o broblem. Byddai'n mynd ar ôl yr amrywiol faterion yn ymwneud ag amodau cynllunio ar gyfer Glannant.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs E Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng Mrs N Redmond a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 5.02.18 | E Rees | Bloc toiledau a chodi sbwriel | 200.00 | |
| | Mathew Penny | Goleuadau Nadolig | 390.00 | |
| | Swyddfa Archwilio Cymru | Anfoneb 29.12.16 a 17.10.17 | 576.00 | |
| | CC Llandudoch | Hyfforddiant GDPR y Clerc | 15.00 | |
| | S Davies | Swyddfa yn y Cartref / Post | 31.72 | |
| | HMRC | | 5.40 | |
| 30.02.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Mae angen i'r Clerc restru costau LAS i roi gwybod i'r Cyngor

Ymddiheurodd y Clerc am fethu â chynnwys y cais am daliad am etholiadau 2017 ar y rhestr. Os byddai hyn yn dod yn fater o frys, byddai'n cysylltu â'r rhai a lofnododd ac yn rhoi gwybod am y taliad yng nghyfarfod mis Mawrth.

Roedd hi wedi bod yn cael ceisiadau am roddion/grantiau, ond gan oedd yr un o'r rheiny'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gymuned leol, byddai'n eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Ebrill.

*Arolwg o Drefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion* – cynigion drafft
Cytunwyd ei bod lawer yn well gan y Cyngor y *status quo* yn hytrach na'r cynigion i greu ward i gynnwys Llangoedmor a Beulah yn cael ei chynrychioli gan 2 Gynghorydd Sir. Teimlwyd hefyd, nes byddai eglurder ynglŷn â threfniadaeth y sector Llywodraeth Leol yn gyffredinol yng Nghymru, fod y cynigion braidd y rhy gynnar.
GWEITHREDU: Ymateb i'r ymgynghoriad GAN: Y Clerc

*Contract torri porfa* – roedd geirdaon boddhaol wedi dod a'r contractiwr a ddewiswyd wedi cael gwybod. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr aflwyddiannus.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r holl ymgeiswyr GAN: Y Clerc

Gofynnwyd, lle byddai dirprwyo pwerau wedi'i gytuno, y byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i bawb dan sylw am y cynnydd gyda'r mater.

*To adeilad y Mileniwm a thrwsio'r aradr.* Roedd dyddiadau cychwyn wedi'u pennu. Nid oedd y contractwyr ar gyfer y trac wedi rhoi dyddiad cychwyn hyd yma. Nodwyd y byddai'r marcio SelectaDNA yn digwydd ar ôl i'r aradr gael ei thrwsio.
Byddai trefniant yn cael ei wneud i dynnu llun o ail-doi adeilad y Mileniwm a Cardi BS.

*Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol*
Dywedodd y Clerc ei bod yn dal i aros am eglurder sut y dylai Cynghorau fynd i'r afael â'r gofynion. Nid ydym eto'n gwybod beth fydd y gost bosibl. Roedd hi wedi cymryd rhan mewn un seminar ar y we a byddai hyfforddiant pellach ar gael ar ddim i Glercod ar 15.2.18 yng Nghaerfyrddin. Roedd SD wedi cytuno in dalu hanner costau teithio'r Clerc. Cytunwyd y byddai CC Llangoedmor hefyd yn talu hanner.
Nodwyd y byddai'n rhaid i'r Elusen gydymffurfio â'r rheoliadau a gwneud hynny fel corff annibynnol.

*Sesiwn ddiweddaru'r Panel Arolygu Annibynnol – 13.3.18*
Gofynnodd y Clerc am gael ei chostau teithio i Gaerfyrddin i fynd i'r cyfarfod diweddaru gan iddi fod yn y sesiwn gychwynnol yn Llanbedr Pont Steffan y llynedd. Byddai'n gofyn i SD dalu hanner y gost. Cytunwyd i dalu o leiaf hanner costau teithio'r Clerc.

*Cyfarfod Cynlluniau Lle, 20.02.18, Aberteifi, 7pm*

*28.2.18 HYFFORDDIANT CYNLLUNIO AM DDIM* - gweithdy hyfforddiant i gynghorau cymuned a thref Ceredigion, swyddfeydd Penmorfa 2-5.30. Dywedodd y Cyng K Symmons ei fod eisoes wedi trefnu'r hyfforddiant, a dywedodd y Cyng Mrs L Holder ei bod yn dymuno bod yn bresennol.

*Cinio'r Cadeirydd*
Cytunwyd i gynnal y cinio ar 20 Ebrill 2018. Byddai manylion pellach yn dilyn.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Cais am gysgodfan bws yng Nghroes-y-llan*
O gofio'r wybodaeth a oedd wedi'i darparu cyn dechrau'r cyfarfod, cytunwyd na fyddid yn mynd ymlaen â'r mater.

*Blychau Blodau*
Roedd Ceredigion wedi cadarnhau y gallai'r blwch gael ei osod wrth arwydd Preseli View cyn belled na fyddai'n cuddio hwnnw – roedd yr holl waith yn yr ardal nawr wedi'i orffen. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr G Evans ynglŷn

â dod â'r blwch. Cytunwyd i ofyn i Mr J Morris a Mr E Rees am ddyfynbrisiau am gynnal a chadw'r planhigion drwy'r haf.

Sylwyd nad oedd dim wedi'i wneud ynglŷn â'r niwed i'r llain borfa wrth fynedfa Preseli View.
GWEITHREDU: Mynd ar ôl hyn GAN: Y Clerc

*Ffens – Glannant*
Roedd hyn wedi'i drafod tra oedd y Cynghorydd Sirol yn y cyfarfod.

*Mainc*
Cytunwyd i ofyn i'r Cyng H Davies a fyddai'n fodlon gosod y fainc ar ôl iddi gyrraedd. Roedd angen gwneud yn siŵr fod y darn concrid wrth y gysgodfan bws o flaen Preseli View yn addas i osod y fainc arno.
GWEITHREDU: Sicrhau'r lleoliad a gofyn i'r Cyng H Davies.

**11. Amwynderau**
*Hysbysfyrddau*
Newydd: Roedd y Cadeirydd wedi cael gwell copi o'r logo a'r trefniant terfynol wedi'i roi i'r gwneuthurwyr. Byddem yn cael gwybod am y dyddiad anfon.
Hen: Roedd arts4wellbeing yn gweithio ar syniadau am brosiectau i gael eu cyflwyno i'r Cyngor, erbyn cyfarfod mis Mawrth, gobeithio.

**12. Prosiectau'n Parhau**
*Rhestr y Cofio* – gwaith ymchwil yn parhau.

**13. Digwyddiadau**
Dim.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
*Cadeirydd – cyfarfod â Phrif Weithredwr y Cyngor Sir ac Arweinydd y Cyngor*
Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi trafod cyflwyno system CLIC Ceredigion, cynlluniau lle, a chynigion cyllideb dros dro y Cyngor Sir.

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
Datganiad gan gadeiryddion Cymdeithasau Tai Canolbarth Cymru a Tai Ceredigion

Deiseb i Gynulliad Cymru - Tystysgrif Mynediad

Cylchlythyr FfFfDGC Cymru Ionawr 2018

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyfoeth Naturiol Cymru - Arolwg Datganiadau Ardal
Cytunwyd i ymateb i'r arolwg.
Sylwyd bod boncyffion coed yn rhwystro'r dŵr dan fwâu'r bont.
GWEITHREDU: Cysylltu â CNC GAN: Y Clerc

Cylchlythyr Hybu'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Cytunodd y Cyng Mrs E Davies i brynu baner newydd yn barod ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Byddem yn gofyn i Mr Peter Hazzelby helpu codi'r faner gan nad oedd neb a oedd yn bresennol erioed wedi gwneud hynny.

Roedd y Cyng Mrs L Holder wedi sylwi bod sawl PROW wedi'i rwystro a byddai'n enwi'r lleoliadau. Dywedodd y Cyng Mrs N Redmund y byddai ganddi ddiddordeb, ar ôl i'r tywydd wella, mewn ceisio gwella llwybrau troed yn yr ardal.
GWEITHREDU: Darparu cysylltiadau â'r CS ynglŷn â'r 'Cynllun Mabwysiadu Llwybr'. GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod y wal gyferbyn â'r siop ddrylliau wedi'i difrodi.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i Adran Briffyrdd CSC GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmund fod Ysgol Llechryd unwaith eto wedi ennill statws 'gwyrdd'. Byddai llythyr llongyfarch yn cael ei anfon.
GWEITHREDU: Llythyr GAN: Y Clerc

Awgrymwyd archwilio'r diffibriliwr pan gynhelid cyfarfodydd yn Neuadd y Cwrwgl.

Sylwodd y Cyng K Symmons mor beryglus oedd y groesfan ar yr A484 wrth Ysgol Llechryd.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5.03.18 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm*